



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2015-16



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Bryn Menai
Ffordd Caergybi
Bangor
Gwynedd
LL57 2JA

01248 371839
swyddfa@cyfieithwyr.cymru

www.cyfieithwyr.cymru



@cyfieithwyr

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2015-16

Cyflwyniad

Prif nod y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn oedd parhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu ein haelodaeth i gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- cynnal a meithrin ein cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill oddi mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu;
- hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau.

Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o weithgareddau 2015-16, crynodeb o'r sefyllfa ariannol, a gwybodaeth am drefniadau llywodraethu'r Gymdeithas. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod 2013-16 pan gafodd y Gymdeithas grant gan gomisiynydd y Gymraeg i "ariannu gweithgareddau rheoleiddio", grant a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016.



Rhagair

Gan fod grant Comisiynydd y Gymraeg yn dod i ben ym mis Mawrth 2016, bu'n flwyddyn bryderus o ran y sefyllfa ariannol i'r Cyfarwyddwyr ac i'r aelodau, ond yn arbennig i'r staff. Rhaid diolch iddynt am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

Yn gynnar yn y flwyddyn ariannol gadawodd Judith Kaufmann ei swydd er mwyn newid cyfeiriad. Oherwydd yr ansicrwydd ariannol ar y pryd, ni phenodwyd neb yn ei lle ac o ganlyniad mae gennym lai o staff nag o'r blaen. Er bod hyn yn golygu bod gorbenion y Gymdeithas yn llai, mae wedi amharu ar allu'r Gymdeithas i wireddu ei nod ac amcanion. Bu colli arbenigedd Judith yn golygu na ellid gwneud cymaint mewn rhai meysydd, yn enwedig ym maes datblygu proffesiynol parhaus. Yn ffodus rydym wedi llwyddo i gael blwyddyn o gyllid, gydag amodau, gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gymdeithas yn cydweithio gyda'r Llywodraeth ar ei thargedau ac amcanion a gobeithio y gall y cydweithio hyn barhau.

Rydym yn ffodus iawn bod cynifer o gyfieithwyr mor driw i'r Gymdeithas. Mae nifer yr aelodau'n para'n hynod o sefydlog ac mae hynny'n destun balchder. Diolch yn fawr iawn i chi.

Mae'r wefan newydd ar waith erbyn hyn ac yn edrych yn hynod broffesiynol. Ceir arni fwy o gyfleoedd i'r aelodau roi gwybod i ddarpar gwsmeriaid amdanynt eu hunain a'u gwasanaethau.

Rydym yn dal i gydweithredu gyda sefydliadau cyhoeddus a chymdeithasau cyfieithwyr eraill i godi proffil cyfieithu'n gyffredinol, yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt.

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar adeg dathlu 40 mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r Gymdeithas wedi cyflawni cryn dipyn wrth godi statws cyfieithu a phroffesiynoli'r maes. Mae ganddi gyfraniad yr un mor bwysig i'w wneud wrth i'r Gymraeg wynebu'r heriau sylweddol sydd o'i blaen.

*Claire Richards,
Cadeirydd*



1. Sefyllfa'r Gymdeithas ar 31 Mawrth 2016

- 1.1 Y flwyddyn 2015-16 oedd y drydedd a'r olaf o'r cytundeb 3-blynedd rhwng y Gymdeithas a Chomisiynydd y Gymraeg pan gafwyd grant ar gyfer "ariannu gweithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas".

Yn ystod y cyfnod hwn parhaodd y Gymdeithas i gryfhau ymhellach sylfeini'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg, i wella sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr, ac i barhau i hybu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol a arddelir ganddi. Ymysg y gweithgareddau a wnaed i gyflawni hyn yn ystod y cyfnod

- parhau i gynnal y drefn arholi - Arholiadau Aelodaeth Testun a Phrawf CAP - sy'n caniatáu i gyfieithwyr ymaelodi â'r Gymdeithas, ac felly'n caniatáu iddi gynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr.
- parhau i drefnu rhaglen amrywiol o weithdai hyfforddiant i gyfieithwyr a chyw gyfieithwyr.
- datblygu cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus i'r aelodau.
- parhau i sicrhau rhestr gywir a chyfredol o aelodau'r Gymdeithas ar bob achlysur a gweithredu'r drefn ail-ymaelodi'n effeithiol.
- parhau i wneud yn siŵr fod holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod fod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol, sy'n amod wrth dalu'u tâl aelodaeth blynyddol; ac ymdrin ag unrhyw gwynion yn unol â'r drefn gwyno sy'n gysylltiedig â'r Cod.
- sefydlu trefn ar gyfer cydnabod meysydd arbenigedd proffesiynol aelodau Cyflawn a CAP.
- parhau i ddatblygu'r drefn o gydnabod sefydliadau cyhoeddus a rhai yn y trydydd sector.
- sefydlu trefn ar gyfer cydnabod myfyrwyr (ond nid fel aelodau).
- parhau i gefnogi a hyrwyddo ymdrechion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sefydlu Cynllun Astudiaethau Cyfieithu. Llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Gymdeithas a'r Coleg yn Awst 2014.
- parhau i gydweithio â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar y Dystysgrif Ôl-raddedig Cyfieithu ar y Pryd.
- parhau i gynrychioli'r Gymdeithas a'r proffesiwn ar bwyllgorau perthnasol.



- parhau i ddatblygu, cynnal a meithrin cysylltiadau â phartneriaid allweddol a chyrrff sy'n hyrwyddo a hybu'r Gymraeg.
- parhau i ddatblygu, cynnal a meithrin cysylltiadau â chymdeithasau cyfieithu yng Nghymru a'r tu hwnt.
- parhau i hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau.

1.2 Ar 31 Mawrth 2016 roedd y Gymdeithas mewn sefyllfa llawer gwannach a mwy bregus nag yr oedd hi ar 1 Ebrill 2013.

Erbyn hyn, dim ond 2 swyddog amser-llawn sydd gan y Gymdeithas, o'i chymharu â 2.7 o staff ar 1 Ebrill 2013. Nid yw'r cyllid sydd ar gael i'r Gymdeithas ar hyn o bryd yn caniatáu i ni ail benodi i'r drydedd swydd yn dilyn rhewi'r swydd honno ym mis Mai 2015, ar ymadawiad deilydd y swydd, oherwydd yr ansicrwydd ar y pryd ynghylch ariannu'r Gymdeithas yn 2016-17.

Yn ystod y cyfnod 2013-16, mae'r grant cyhoeddus i'r Gymdeithas wedi lleihau o £87,500 i £60,000, toriad o 31%. Mae'r toriad hwn yn fwy fyth wrth ystyried mai £97,269 oedd y grant yn 2012-13, ac mai £50,000 fydd y grant yn 2016-17.

1.3 Yn sgil y ffaith na fyddai Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi grant i'r Gymdeithas ar ôl 31 Mawrth 2016, treuliodd llawer iawn o amser yn ystod y flwyddyn yn trafod ac ystyried dyfodol y Gymdeithas. Bu trafodaethau ym Mwrdd y Cyfarwyddwyr am ddyfodol y Gymdeithas ble y cytunwyd ar gynllun strategol ar gyfer 2016-19 ac y trafodwyd sefyllfaoedd posib pe na bai'r Gymdeithas yn cael grant. Cafwyd trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ac yn ystod 3 mis cyntaf 2016 bu trafodaethau a chytundeb ar y targedau a fyddai'n sail i grant o £50,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17.



2. Aelodaeth y Gymdeithas

Aelodau unigol

Ar 31 Mawrth 2016, roedd gan y Gymdeithas 357 o aelodau, sef yr un nifer ag oedd ganddi ar 31 Mawrth 2015 fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn - 194

Aelodau Sylfaenol - 144

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd - 72 (19)*

* Y ffigwr rhwng cromfachau yw nifer yr aelodau sy'n aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n aelodau Cyflawn (40) ynteu'n aelodau Sylfaenol (13) hefyd.

Mae'n galonogol fod cefnogaeth yr aelodau i'r Gymdeithas yn un cadarn iawn, arwydd clir fod y rhan fwyaf o gyfieithwyr proffesiynol yn gweld gwerth mewn bod yn aelod o gymdeithas broffesiynol.

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod ohoni. Mae dwy lefel o aelodaeth i gyfieithwyr testun – Cyflawn a Sylfaenol – ac un lefel o aelodaeth i gyfieithwyr ar y pryd. Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Mae gan y Gymdeithas drefn gadarn a theg ar gyfer atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu eu tâl aelodaeth. O ganlyniad, dim ond enwau aelodau sydd wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn sydd ar wefan y Gymdeithas.

Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth mae holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod fod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol. Ynghlwm wrth y Cod, mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braf dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

Cydnabod meysydd arbenigedd proffesiynol ein haelodau

Penderfynwyd sefydlu a datblygu trefn ar gyfer cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol a chyfyngu hynny i aelodau Cyflawn ac aelodau CAP yn unig. Wrth gydnabod unrhyw faes arbenigedd penderfynwyd y dylid, mewn egwyddor, ystyried dulliau a fyddai'n rhai addas a phriodol i'r maes dan sylw.

Penderfynwyd mai CAP yn y Llysoedd fyddai'r maes arbenigedd proffesiynol i gael ei gydnabod. Cytunwyd, mewn ymgynghoriad â swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, ar y canllawiau ar gyfer hyn ac ar yr aelodau CAP cyntaf i gael gwahoddiad i wneud cais i gael eu cydnabod.



Derbyniodd pob un o'r 8 aelod y gwahoddiad yn llawen a chyda brwdfrydedd. Caiff aelodau CAP eraill wahoddiad i gael eu cydnabod yn 2016-17. Agwedd bwysig o'r trefniadau newydd hyn fydd adfer y seminar ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd a gweithwyr llys.

Penderfynwyd hefyd y byddai Golygu yn faes arbenigedd proffesiynol arall a gaiff ei gydnabod a bydd y gwaith ar ei ddatblygu yn digwydd yn ystod 2016-17.

Cydnabyddiaeth i eraill

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod cwmnïau cyfieithu trwy drefn y Cwmni Cydnabyddedig. Cynigir cydnabyddiaeth i sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector fel rhai Cydnabyddedig neu Gyswllt, yn dibynnu ar fodloni meini prawf.

Mae cydnabyddiaeth fel Myfyriwr Cyswllt ar gael i fyfyrwyr sydd â'u bryd ar yrfa fel cyfieithwyr, ac yn fodd o annog a chefnogi myfyrwyr yn yr uchelgais hon. Nid yw bod yn Fyfyriwr Cyswllt yn golygu bod yn aelod o'r Gymdeithas.

3. Cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

Arholiadau Aelodaeth Testun

Cynhaliwyd Arholiadau Aelodaeth Testun ym mis Ebrill 2015 ac ym mis Hydref 2015 ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol. Fe'u cynhaliwyd yng Ngholeg Ceredigion, Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, a Choleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y sefydliadau hyn am eu cymorth a'u cydweithrediad parod.

Dyma ystadegau'r arholiadau:

	Ebrill 2015		Hydref 2015	
	Ymgeiswyr	Llwyddo	Ymgeiswyr	Ymgeiswyr
Cyfanswm yr holl ymgeiswyr *	33		31	
Cyflawn *	13	0	15	2
Papur 1 - i'r Gymraeg	10	0	13	0
Papur 2 - i'r Saesneg	4	0	3	2
Sylfaenol *	20	9	16	9
Papur 1 - i'r Gymraeg	17	6	14	6
Papur 2 - i'r Saesneg	9	3	10	6

* Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur



Roedd yn galonogol unwaith eto gweld cynifer yn sefyll yr **arholiadau Cyflawn**. Dangosai hynny awydd cynyddol ymysg cyfieithwyr i gyrraedd safon wirioneddol broffesiynol yn eu gwaith.

Serch hynny, trist yw gorfod nodi na lwyddodd yr un o'r ymgeiswyr yn y naill rownd na'r llall yn yr arholiadau i'r Gymraeg, er bod rhai nodweddion digon addawol ac enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus ac effeithiol i'w gweld yng ngwaith pob un ohonynt. Er na lwyddodd yr un ymgeisydd i gyrraedd y safon ofynnol, ni chafwyd yr un ymgais oedd yn wael ychwaith. Wedi dweud hynny, ni theimlwyd fod meistrolaeth yr un o'r ymgeiswyr ar grefft cyfieithu yn ddigonol i gyfiawnhau dyfarnu Aelodaeth Gyflawn iddynt. Beth, felly, sydd wedi atal yr ymgeiswyr hyn, sy'n gallu cynhyrchu gwaith digon di-fai mewn manau, rhag cyrraedd y safon ofynnol i lwyddo ar y lefel hon?

Un gwendid amlwg oedd yr argraff bendant a gafwyd bod yr ymgeiswyr wedi mynd ati i gyfieithu'r geiriau yn unig, heb roi sylw i'r ystyr waelodol a'r neges sydd dan sylw. Cyn mynd ati i gyfieithu, mae angen bod yn hollol sicr ynghylch ergyd y gwreiddiol, er mwyn medru mynd ati i gyfleu'r ystyr honno mewn Cymraeg graenus, naturiol, sy'n argyhoeddi'r darllenydd. O ganlyniad cafwyd digonedd o enghreifftiau o gyfieithiadau aflwyddiannus nad ydynt yn dderbyniol ar y lefel hon, a siom yw gorfod nodi hynny. Er bod amodau arholiad yn gallu achosi ambell lithriad mewn gwaith sydd fel arall yn lân, hyd yn oed o ganiatáu rhai mân frychau o'r fath, ni welwyd bod gwaith yr un o'r ymgeiswyr yn ddigon gloyw i fedru cael ei ystyried yn gyfieithiad proffesiynol, na fyddai angen ei ddiwygio na'i gywiro.

Wrth droi at yr arholiadau i'r Saesneg, er mai nifer fach safodd yr arholiadau, llwyddodd dau ohonynt. Fel mewn sawl arholiad blaenorol, er bod cyffyrddiadau da yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, anwastad oedd y safon, a theimlid nad oedd gan yr ymgeiswyr afael gwbl gadarn ar batrymau naturiol yr iaith Saesneg. Mae angen iddynt fynd ati i fireinio'u crefft ymhellach, er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu mwy o feistrolaeth ar y Saesneg a'i chyweiriau. Rhaid cyflwyno cyfieithiad sy'n argyhoeddi ac sy'n llifo'n naturiol yn yr iaith darged, yn ogystal â chyfleu holl ystyr y gwreiddiol, i lwyddo ar y lefel hon.

Yr anogaeth i bob un sydd am sefyll yr arholiadau Cyflawn fyddai parhau i fireinio'u crefft a cheisio gwelliant parhaus yn eu gwaith, er mwyn sicrhau safon broffesiynol ym mhob cyfieithiad a luniant.

Roedd nifer yr ymgeiswyr yn yr **arholiadau Sylfaenol** ychydig yn is nag yn y gorffennol.

Serch hynny llwyddodd nifer dda yn yr arholiadau i'r Gymraeg. Er bod cryn addewid i'w weld yng ngwaith yr ymgeiswyr llwyddiannus, ni lwyddodd yr un ymgeisydd i gyflawni rhagoriaeth yn y ddau ddarn. Roedd y safon yn gyffredinol yn anwastad ac yn amrywio cryn dipyn, gyda nifer o ymgeiswyr ffiniol. Roedd



gweld ambell ymgeisydd digon addawol yn methu â chyrraedd y safon oherwydd rhai gwallau esgeulus oedd yn amharu ar y cyfanwaith yn achosi cryn rwystredigaeth. Wedi dweud hynny, cafwyd cyffyrddiadau da yng ngwaith llawer o'r ymgeiswyr.

Roedd ôl meddwl, gofal a golygu yng ngwaith yr ymgeiswyr gorau, a heblaw am rai llithriadau sy'n ddigon dealladwy o dan amodau arholiad ar y lefel Sylfaenol, roeddent wedi ymdrin â'r darnau'n dda, er bod pawb wedi tueddu i gael gwell hwyl ar y darn cyntaf na'r ail ddarn.

Yn anffodus, fodd bynnag, cafwyd hefyd lawer o enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus, gan gynnwys gwallau difrifol o ran ystyr, cywair a chystrawen. Yn rhy aml gwelwyd ymgeiswyr yn methu â chyfleu ystyr y gwreiddiol, neu'n ceisio cyfleu'r ystyr, ond yn cael eu trechu gan y gystrawen ac yn cynhyrchu cyfieithiadau gwallus a thrwsgl. Roedd cryn dipyn o ddylanwad y Saesneg i'w weld ar batrymau'r Gymraeg, a gwelwyd hefyd ddigonedd o enghreifftiau o wallau cywirdeb, ac o wallau treiglo. Er y gellir maddau ambell lithriad wrth deipio mewn arholiad, rhaid darllen y gwaith yn fanwl iawn cyn ei gyflwyno, a manteisio ar gymhorthion fel y gwirydd sillafu, fydd yn helpu i amlygu rhai o'r gwallau.

Cafwyd hefyd, gwaetha'r modd, ambell bapur oedd yn wan iawn, ac roedd natur ac amllder y gwallau a welwyd yn y papurau hynny yn dangos bod yr ymgeiswyr dan sylw wedi'u trechu'n llwyr gan y darnau. Byddai'n fanteisiol i'r ymgeiswyr hyn, a darpar ymgeiswyr yn y dyfodol, fanteisio ar bob cyfle a ddaw i'w rhan i gael hyfforddiant ac arweiniad. Gallai dilyn yr e-weithdy cyfieithu fod yn hynod o werthfawr a defnyddiol iddynt cyn sefyll yr arholiad.

Er bod elfennau da yn y rhan fwyaf o'r cyfieithiadau a gyflwynwyd yn yr arholiadau i'r Saesneg, anwastad ar y cyfan oedd y safon gyffredinol. Er mai boddhaol yn unig oedd y gwaith a gyflwynwyd yn arholiad mis Ebrill 2015, roedd safon arholiad mis Hydref 2015 yn uwch. Ni lwyddodd yr un ymgeisydd i gyflawni rhagoriaeth yn y naill arholiad na'r llall ond, wedi dweud hynny, calonogol oedd gweld nad oedd yr un ymgeisydd gwirioneddol wan, er i sawl un gael gwell hwyl ar un darn na'r llall.

Y prif wendid oedd diffyg gafael yr ymgeiswyr ar ramadeg a chystrawennau'r Saesneg. Dylai ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr fanteisio ar bob cyfle i ddarllen Saesneg graenus, er mwyn ymdeimlo'n fwy â phatrymau naturiol yr iaith honno ar ei gorau. Mae'n bwysig bod pob un yn manteisio ar bob cyfle i loywi eu sgiliau, ac i barhau i fireinio'u crefft, er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn gwella'n barhaus, a'u bod yn medru cynnal safon eu gwaith gorau.

Fel sy'n arferol ar y lefel Sylfaenol, ceisiwyd sicrhau bod pynciau'r darnau i'w cyfieithu yn ddigon cyfarwydd. Syndod, felly, oedd gweld nad oedd rhai ymgeiswyr yn gyfarwydd â thermau digon cyffredin.



Yn gyffredinol, felly, rhaid cymell ymgeiswyr, fel cynifer o weithiau yn y gorffennol, i roi sylw mwy manwl i union ystyr y gwreiddiol, a gwirio'u gwaith yn llawer mwy gofalus, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno sgript sy'n cyfleu ystyr a neges y gwreiddiol yn gywir. Er mwyn llwyddo yn yr arholiad Sylfaenol, rhaid sicrhau meistrolaeth ddigonol ar batrymau'r Gymraeg a'r Saesneg fel bod y cyfieithiad yn darllen yn naturiol yn yr iaith darged. Y neges, fel ym mhob rownd, yw bod angen ceisio ymglyfarwyddo â iaith ysgrifenedig gadarn, ac amrywiaeth o arddulliau yn y ddwy iaith, ac yna sicrhau bod y gwaith cyfieithu a golygu yn cael ei wneud mor fanwl â phosibl yn yr arholiad ei hun.

Mae'n braf nodi bod **Gwobr Goffa Wil Petherbridge** yn 2015 wedi cael ei dyfarnu i Rhodri Owain, cyfieithydd yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge - er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru - i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, os bernir bod teilyngdod.

Fel rhan o'r broses barhaus o adolygu, mireinio a chryfhau'r drefn arholi, a fydd yn sicrhau y bydd iddi drylwyrredd proffesiynol a hygrededd ymysg cyfieithwyr proffesiynol, cynhaliwyd diwrnod i'r arholwyr a'r marcwyr yn ystod y flwyddyn. Roedd hwn yn gyfle iddynt ddod at ei gilydd i drafod agweddau penodol ar y drefn farcio. Roedd hefyd yn rhan o'u datblygiad proffesiynol fel marcwyr a thiwtoriadaid y Gymdeithas.

Y Prawf CAP

Cynhaliwyd un Prawf CAP yn ystod y flwyddyn ym mis Tachwedd 2015. Fe'i cynhaliwyd yn stiwdios sain proffesiynol CTV, Caerdydd a Stiwdio Aran, Groeslon, ger Caernarfon. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y ddwy stiwdio am eu cymorth a'u cydweithrediad parod.

Cafwyd 5 ymgeisydd a llwyddodd 2 ohonynt.

Yn wahanol i'r hyn a welwyd yn y Profion CAP a gynhaliwyd dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf, roedd cryn amrywiaeth yn y safon rhwng yr ymgeiswyr cryfaf a'r rhai gwannaf. Llwyddodd y rhai mwyaf profiadol i roi perfformiad caboledig, cywir a chyflawn, gan ddefnyddio geirfa gyffredinol a thechnegol rhwydd a llyfn gyda chystrawennau ac ymadroddion priodol yn yr iaith darged. At ei gilydd, cafwyd ymgais dda gan y mwyafrif i eirio'n glir ac i wahaniaethu rhwng siaradwyr, gan amrywio tŷn y llais.

Yn y cyfieithiadau gorau, cafwyd enghreifftiau o gystrawennu celfydd ac idiomau cynhenid a naturiol. Fodd bynnag, clywyd cyfieithu llythrennol gan rai gyda chystrawennu gwan ynghyd â'r defnydd o Saesneg anidiomatig neu idiomau amhriodol. Fel y crybwyllwyd droeon o'r blaen, cystrawennu yw'r prif wendid yn aml yn y profion hyn, a dyma'n aml sy'n gwneud y gwahaniaeth rhwng cyfieithiad derbyniol a chyfieithiad da. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i ymgeiswyr wrando ar Saesneg o safon.



4. Hybu datblygiad proffesiynol

Unwaith yn rhagor, trefnwyd rhaglen amrywiol o weithgareddau i hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr a darpar gyfieithwyr, a oedd yn cynnwys gweithdai a'r e-weithdy cyfieithu. Yn gyffredinol cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r agwedd hon o waith y Gymdeithas. Mae nifer fawr o gyfieithwyr yn ystyried bod y cyfleoedd datblygiad proffesiynol a hyfforddiant hyn yn hynod o werthfawr ac yn un o gryfderau'r Gymdeithas. Mae hefyd yn arwydd sicr fod galw am weithdai a bod angen rhagor o weithgareddau hyfforddi.

Serch hynny, roedd lleihad yn yr agwedd hon ar waith y Gymdeithas yn 2015-16, a threfnwyd llai o weithdai nag yn y blynyddoedd blaenorol. Amharwyd ar ein rhaglen hyfforddiant gan ymadawiad y Rheolwr Datblygu Proffesiynol ym mis Mai 2015 a'r penderfyniad i rewi'r swydd oherwydd yr ansicrwydd ar y pryd ynghylch ariannu'r Gymdeithas yn 2016-17.

Trefnwyd 6 **gweithdy wyneb-yn-wyneb** yn ystod y flwyddyn. Gan ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd ers sawl blwyddyn, cynhaliwyd y rhan fwyaf ohonynt mewn mwy nag un lleoliad ar hyd a lled Cymru (gan gynnwys Bangor, Caernarfon, Aberystwyth, a Chaerdydd), er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosib i gyfieithwyr ym mhob rhan o Gymru. Y gweithdai a gynhaliwyd oedd:

Cael blas ar gyfieithu ar y pryd - tiwtoriaid: Lynwen Davies ac Ann Llwyd;
Cyfieithu Deddfwriaethol - tiwtoriaid: Richard Crowe a Manon George
(trefnwyd ar y cyd â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru a Chanolfan Llywodraethiant Cymru);

Deall y Saesneg wrth gyfieithu i'r Gymraeg - tiwtor: Sylvia Prys Jones;
Golygu a gwirio cyfieithiadau - tiwtor: Marian Beech Hughes;
Cof Cyfieithu - Cyflwyniad - tiwtoriaid: Lowri Roberts a Stefano Ghazzali;
Perarogl ynteu drewdod? - tiwtor: Eirlys Williams.

Bu 97 o unigolion yn y gweithdai hyn a chafwyd 111 o gofrestriadau. Braf nodi y bu'n rhaid trefnu ambell sesiwn ychwanegol oherwydd y galw.

Parhaodd poblogrwydd yr **e-weithdy cyfieithu** fel dull effeithiol o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ond o fewn amserlen a strwythur. Cynigir yr e-weithdy cyfieithu ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol ar wahân. Yn yr e-weithdy cyfieithu bydd y dysgwr yn cyfieithu 2 ddarn o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol, ac yn cael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtoriaid sy'n gyfieithwyr profiadol ac yn farcwyr arholiadau'r Gymdeithas. Cynhaliwyd 4 e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn, 2 ar y lefel Cyflawn a 2 ar y lefel Sylfaenol. Cymerodd 41 o unigolion ran ynddynt a chafwyd 55 o gofrestriadau.



Elwodd 122 o unigolion o'r holl weithgareddau hyfforddi hyn. Roedd 49 ohonynt yn aelodau o'r Gymdeithas. O'r gweddill, roeddynt yn gweithio yn y sector cyhoeddus fel cyfieithwyr i lywodraeth ganolog neu i awdurdodau lleol, mewn cwmnïau cyfieithu ac ar eu liwt eu hunain, arwydd clir fod y proffesiwn/diwydiant yn ei gyfanrwydd yn gweld gwerth yn y ddarpariaeth arbennig a phwysig hon gan y Gymdeithas er mwyn hwyluso datblygiad proffesiynol cyfieithwyr. Roedd nifer o unigolion oedd yn ystyried gyrfa fel cyfieithydd hefyd ymhlith y rhai a gymerodd rhan yn yr hyfforddiant.

Yn ystod y flwyddyn trefnwyd rhaglenni hyfforddiant penodol i gyfieithwyr UCM Cymru a chyfieithwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Parhawyd i annog aelodau i roi sylw i'w **datblygu proffesiynol parhaus (DPP)**, ac i bwysleisio pwysigrwydd rhoi sylw dyledus i hyn. Cafodd yr aelodau bapur yn amlinellu manteision DPP. Roedd hwn yn cynnig canllaw hwylus a fyddai'n helpu'r aelodau i lunio'u cynllun DPP personol, ac a oedd yn cynnig arweiniad iddynt wrth iddynt ystyried pa weithgaredd DPP, a faint ohono, fyddai fwyaf addas a pherthnasol iddynt ei wneud. Ers lansio'r wefan newydd, gall pob aelod bellach gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei gofnod personol ar y wefan, cofnod y gall yr aelod ei hun a staff y Gymdeithas yn unig ei weld.

5. Y Diwrnod i'r Aelodau

Ym mis Medi 2015 daeth 30 i'r Diwrnod i'r Aelodau a gynhaliwyd yn Amgueddfa Cymru Caerdydd. Bwriad y Diwrnod i Aelodau oedd rhoi cyfle i'r aelodau gyd-gyfarfod mewn awyrgylch llai ffurfiol, a chael cyfle i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin.

Bu'n ddiwrnod hynod o ddifyr, diddorol a defnyddiol. Cafwyd cyflwyniad ardderchog gan Manon Humphreys a Rhian Huws wrth iddynt rannu eu profiadau a disgrifio'r cydweithio a fu rhyngddynt ar brosiect ffotograffiaeth sylweddol gan yr amgueddfa; a chafwyd trafodaeth fywiog yn seiliedig ar thema FIT ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Cyfieithu 2015, sef y modd mae maes cyfieithu yn newid, trafodaeth a sbardunwyd gan y panelwyr Claire Richards, Nia Davies a Muiris Mag Ualgharig.

Hwn oedd yr eildro i ni gynnal Diwrnod i'r Aelodau. Y bwriad yw iddo fod yn ddigwyddiad blynyddol a fydd yn cyd-daro â Diwrnod Rhyngwladol Cyfieithu a ddethlir ar 30 Medi.

Cynhaliwyd y **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** yn ystod y diwrnod. Ymysg y penderfyniadau oedd yr un i fabwysiadu nifer o newidiadau ac ychwanegiadau yn Erthyglau Cymdeithasiad y Gymdeithas a gynigiwyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Bydd y newidiadau ac ychwanegiadau hyn yn cryfhau'r ddogfen reoli, ac fe'u gwnaed yn bennaf oherwydd i Ddeddf Cwmnïau 2006 ddod i rym ers llunio'r Erthyglau gwreiddiol adeg corffori'r Gymdeithas yn 2003 a datblygiadau eraill.



6. Darlith Goffa Hedley Gibbard

Fel arfer, cynhaliwyd Darlith Goffa Hedley Gibbard yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn ei darlith feistrolgar, 'Anturiaethau Alys yng Ngwlad Hud: cyfieithu clasur i'r Gymraeg', bu'r Athro Sioned Davies, o Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, yn dadansoddi'r cyfieithiadau Cymraeg o 'Alice's Adventures in Wonderland' gan Lewis Carroll, ym mlwyddyn dathlu cyhoeddi'r llyfr 150 mlynedd yn ôl, yn 1865.

7. Gwefan newydd y Gymdeithas

Aeth y wefan newydd yn fyw ar 11 Chwefror 2016. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth oedd ar yr hen wefan a rhywfaint o wybodaeth newydd. Bydd hi hefyd yn fwy hygyrch i'r defnyddiwr, a gellir ei chyrchu ar unrhyw blatfform, gan gynnwys cyfrifiadur pen-desg, llechen neu ffôn.

Cafwyd sawl neges gan aelodau'n canmol y wefan newydd, yn eu plith roedd 'Gwefan swanc iawn!', 'Mae'r wefan newydd yn edrych yn DDA!', a 'Mae'r wefan yn edrych yn daclus a phroffesiynol - dylai fod wrth fodd yr aelodau.'

Datblygiad pwysicaf a mwyaf cyffrous y wefan newydd yw 'Amdanaf i'. Bellach mae gan bob aelod ei dudalen bersonol ei hun ar y wefan sy'n eu caniatáu i roi gwybodaeth amdanynt eu hunain yn uniongyrchol ar y wefan, a golygu a newid y wybodaeth honno ar unrhyw bryd. Bydd hyn yn caniatáu i aelodau gyflwyno pa wybodaeth bynnag y maent yn ei ddymuno amdanynt eu hunain ac am y gwasanaeth y maent yn ei gynnig. Gobeithiwn y gall y wefan newydd, felly, weithredu fel gwefan i bob aelod yn unigol, yn ogystal ag yn wefan i'r Gymdeithas, ac y bydd hyn yn adnodd gwerthfawr i'n holl aelodau, pa un a ydyn nhw'n gweithio mewn sefydliad, i gwmni neu ar eu liwt eu hunain.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen ble'r hysbysebwr swyddi cyfieithu. Mae hwn yn wasanaeth y mae'r Gymdeithas yn ei gynnig yn rhad ac am ddim i gwmnïau ac i sefydliadau wrth iddynt benodi cyfieithwyr.

Bydd y wefan yn ganolog i weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r Gymdeithas wrth hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas fel y corff proffesiynol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg. Dyma'r unig le i chwilio am wybodaeth am gyfieithwyr Cymraeg a'r byd cyfieithu yng Nghymru. Bydd yn fodd o ddarparu gwybodaeth i'r gwahanol garfanau y mae angen i'r Gymdeithas ymgysylltu â hwy, sef ein haelodau, darpar aelodau, cyfieithwyr eraill, sefydliadau a chyrff, comisiynwyr cyfieithu, a chysylltiadau allweddol eraill y tu allan i'r byd cyfieithu. Bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfieithwyr, a deunyddiau dysgu ac arweiniad ar gyfer unigolion sydd â'u bryd ar fod yn aelodau o'r Gymdeithas.



8. Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol - sefydliadau Addysg Uwch

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas agos â'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**. Yn benodol, parhaodd y Gymdeithas i gefnogi ymdrechion y Coleg i ddatblygu cynllun academaidd cenedlaethol ym maes astudiaethau cyfieithu a fyddai'n ymateb i anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu.

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o'r Consortiwm Astudiaethau Cyfieithu. Bwriad y Consortiwm yw cadw trosolwg strategol ar y ddarpariaeth academaidd, cynnig arweiniad a chynghor er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth academaidd yn adlewyrchu anghenion hyfforddi'r proffesiwn, a sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r safon a'r rhychwant sgiliau sydd yn ddisgwyliedig gan y proffesiwn cyfieithu.

Ym mis Ionawr 2016 dechreuodd Mandi Morse yn ei swydd ym Mhrifysgol Aberystwyth fel y darlithydd sy'n gyfrifol am y cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Wrth groesawu ei phenodiad, bydd y Gymdeithas yn rhoi pob cefnogaeth iddi yn y swydd. Ystyria'r Gymdeithas fod hwn yn gynllun pwysig iawn i ddatblygiad y diwydiant/proffesiwn yng Nghymru. Mae datblygu perthynas gref ac ymarferol rhwng y cynllun a'r Gymdeithas ar bob lefel yn flaenoriaeth amlwg.

Parhaodd y Gymdeithas i roi ei chefnogaeth ymarferol i'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd ym **Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**, cymhwyster y bu'n bartner allweddol yn ei sefydlu. Hwn yw'r unig gymhwyster a gaiff ei gynnig mewn cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg, ac mae'n gyfle i ennill cymhwyster academaidd sy'n bodloni anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu.

Roedd hi'n destun llawenydd cael cydnabod llwyddiant Dawn Wooldridge ar ennill ei gradd PhD ym **Mhrifysgol Bangor** am ei thraethawd ymchwil, 'Proffilio gwallau: astudiaeth o sut mae darpar gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg yn cyfieithu'. Cafodd ganmoliaeth uchel gan yr arholwr mewnol a'r arholwr allanol am waith arloesol a hynod berthnasol i'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu yng Nghymru. Roedd y PhD yn rhan o'r cynllun KESS a gefnogwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, ac ariannwyd ei hastudiaethau'n rhannol gan y Gymdeithas.

9. Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol - cyrff a sefydliadau

Parhaodd y Gymdeithas i gael ei chynrychioli ar sawl pwyllgor, yn eu plith Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg (grŵp y mae Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ei gydlynw a'i weinyddu), a Rhwydiaith (gweithgor swyddogion y Gymraeg yn y sector cyhoeddus a gaiff ei drefnu a'i gynnal gan WLGA).



Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), mewn partneriaeth â'r Gymdeithas, wedi ehangu'r cynnig cyfieithu i'w aelodau i gynnwys cyfieithwyr y Gymdeithas ym mhob cwr o Gymru.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o: Dathlu'r Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Mantell Gwynedd, a'r Sefydliad Materion Cymreig.

Bu'r Gymdeithas yn rhoi cyngor a chymorth proffesiynol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd a Gyrfa Cymru wrth iddynt benodi cyfieithwyr. Mae'r Gymdeithas yn cynnig y gwasanaeth hwn am ffi rhesymol i unrhyw gorff neu sefydliad wrth iddynt benodi i swyddi cyfieithu.

Am y tro cyntaf yn 2015 cynhaliwyd cystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19-25 yn Eisteddfod yr Urdd, cystadleuaeth oedd yn ffrwyth cydweithio rhwng y Gymdeithas a'r Urdd. Roedd yr enillydd, Heledd Fflur Hughes, yn aelod o'r Gymdeithas. Ei gwobr oedd treulio diwrnod yng Ngwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad Cenedlaethol, ac roedd yn ddiwrnod a fwynhaodd yn arw. Cafodd gyfle i gyfarfod Carwyn Jones AC, a dywedodd Heledd wrtho ei bod yn awyddus i barhau i ddatblygu ei gyrfa fel cyfieithydd a dod yn aelod Cyflawn o'r Gymdeithas.

Cyflwynodd y Gymdeithas dystiolaeth i'r Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol yn llafar ac yn ysgrifenedig. Roedd y dystiolaeth yn canolbwyntio ar swyddogaeth bwysig cyfieithu wrth ddatblygu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol ac wrth weithredu Safonau'r Gymraeg.

Yn y byd cyfieithu, parhaodd y Gymdeithas i ehangu ei rhwydweithiau a'i chysylltiadau trwy gynnal a datblygu ei pherthynas â chymdeithasau a chyrrff cyfieithu, yn eu plith Institute of Translators and Interpreters, y grŵp ITI Cymru/Wales, Chartered Institute of Linguists, NRPSI, yn ogystal â chyfarwyddiaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn y Comisiwn Ewropeaidd a phrifysgolion. Yn ystod y flwyddyn ymunodd y Gymdeithas â Professional Interpreters for Justice, grŵp ymbarél ac ymgyrchu o blaid buddiannau cyfieithwyr ar y pryd a ffurfiwyd yn 2012 yn sgil sefydlu cytundeb fframwaith gwasanaethau iaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Gymdeithas yn aelod o FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators).

10. Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £60,000 gan Gomisiynydd y Gymraeg tuag at weithgareddau rheoleiddio'r Gymdeithas.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, a chafwyd £52,051.



Roedd yr incwm a gafwyd yn fodd i'r Gymdeithas barhau i gyflogi 2 aelod o staff amser-llawn, yn ogystal â chyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £127,760 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon.

Yn ystod y flwyddyn gofynnwyd i Owain Bebb a'i Gwmni gynnal adolygiad o systemau mewnol y Gymdeithas (cafwyd adolygiad tebyg ganddynt yn 2011). Wrth gloriannu'r adolygiad, meddai'r cwmni, "Ar y cyfan mae'r systemau a'r rheolau sydd gennych yn dda iawn ac yn sicr yn well na'r hyn yr wyf yn ei weld mewn cwmnïau eraill tebyg i chi". Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys ystyried y sefyllfa parthed TAW (cadarnhawyd nad oedd yn rhaid i'r Gymdeithas gofrestru ar gyfer TAW oherwydd na fu dim newid yn ffynonellau incwm y Gymdeithas na maint yr incwm ers yr adolygiad diwethaf) a Threth Corfforaeth (bydd y Gymdeithas yn parhau i dalu treth ar logau o fuddsoddiadau yn unig).

11. Rheoli'r Gymdeithas

- 11.1 Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i cofrestrwyd yng Nghymru, rhif 4741023.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Ar 31 Mawrth 2016, aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr oedd: David Bullock, Mari Lisa Davies, Bethan Mair Evans, Fiona Gannon, Catherine Jones, Mary Jones, Hywel Pennar, Lisa Pugh, Claire Richards, Huw Tegid Roberts a Lowri Roberts. Roedd Hywel Hughes yn Aelod Cyfetholedig.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 17 Ebrill 2015, 8 Gorffennaf 2015, 18 Tachwedd 2015 a 27 Ionawr 2016.

Penodwyd Claire Richards yn Gadeirydd yng nghyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 18 Tachwedd 2015 i olynu Mary Jones.

Yn y Cyfarfod Blynyddol ffarwelwyd â thri Cyfarwyddwr a fu yn eu swyddi ers corffori'r Gymdeithas yn 2003. Rhoddodd Berwyn Prys Jones (a fu'n Gadeirydd am flynyddoedd lawer), Ann Corkett (a fu'n Drysorydd y Gymdeithas) a Heini Gruffudd flynyddoedd maith o wasanaeth clodwiw i'r Gymdeithas fel Cyfarwyddwyr ac rydym yn diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu cyfraniadau enfawr a gwerthfawr i'r agwedd bwysig hon ar reoli'r Gymdeithas.

- 11.2 **Trefn arholi ac asesu'r Gymdeithas**

Fiona Gannon yw Prif Arholwr y Gymdeithas ac mae ganddi gyfrifoldeb am yr Arholiadau Aelodaeth (Testun) a'r Prawf CAP.



Bwrdd Arholi Testunau / Cofrestr Marcwyr yr Arholiadau Aelodaeth Testun

Roedd y canlynol yn aelodau o Gofrestr Marcwyr yr Arholiadau Aelodaeth Testun, ac yn eu tro yn aelodau o'r Bwrdd Arholi Testunau pan oeddynt yn marcio: Meg Elis (Dirprwy Arholwr), Mary Jones (Dirprwy Arholwr), Catrin Beard, Ann Corkett, Mari Lisa Davies, Heini Gruffudd, Berwyn Prys Jones, Lindsey Jones, Sylvia Prys Jones, Meinir McDonald, Glenys Roberts, Catrin Small, Megan Hughes Tomos, Eirlys Williams, Tegwen Williams, Gareth Wood a Menna Wyn.

Y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd / Cofrestr Aseswyr CAP

Roedd y canlynol yn aelodau o Gofrestr Aseswyr y Prawf CAP, ac yn eu tro yn aelodau o'r Bwrdd CAP pan oeddynt yn asesu: Delyth Davies, Lynwen Davies, Siôn Edwards, Rhys George, Catrin Howells Lloyd, Hywel G. Hughes, Rhian Huws (Dirprwy CAP), Aled M. Jones, Siân Eleri Jones, Ann Llwyd, Siôn Aled Owen, Mair Parry-Jones ac Angharad Watson.

11.3 Y Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol

Aelodau'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol yn ystod y flwyddyn oedd: David Bullock (Cadeirydd), Delyth Davies, Fiona Gannon, Claire Richards a Lowri Roberts.

12. Gair i gloi gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Hoffwn ddatgan fy nioch a'm gwerthfawrogiad i Nia Wyn Jones am ei gwaith caled a'i hymroddiad i'r Gymdeithas.

Hoffwn gydnabod hefyd am y gefnogaeth gyson a gefais gan ddwy a fu'n Gadeirydd yn ystod y flwyddyn, Mary Jones hyd at ei hymddiswyddiad ym mis Medi 2015, a'i holynydd, Claire Richards. Diolch iddyn nhw ac i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith, ac am eu ffyddlondeb i gyfarfodydd y Bwrdd.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r aelodau hynny sy'n gwasanaethu'r Gymdeithas mewn ffyrdd eraill, yn arholwyr a marcwyr arholiadau, yn diwtoriaid gweithdai, ac yn aelodau o bwyllgorau eraill. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff a'r aelodau trwy'r ymwneud hwn yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

